http://**www.100arwyrcymru.com/cy/ysgolion**

Taflen waith

**Gwaith Trawsgwricwlaidd Estynedig yng Nghyfnod Allweddol 2**

**Adnodd 4**

**Taflen ffeithiau Athrawon**

**MERCHED YN OES VICOTRIA A DECHRAU'R UGEINFED GANRIF**

Amlinelliad bras yn unig a roddir yma yn nhaflen ffeithiau'r disgybl, er mwyn osgoi cyflwyno gormod o wybodaeth. Wrth wneud hynny, yn anochel mae'n gor symleiddio. Dylid darllen y daflen ffeithiau hon i athrawon ar y cyd â thaflen ffeithiau'r disgyblion er mwyn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol.

**Oes Victoria**

***Ysgolion***
Bu'r Frenhines Victoria yn teyrnasu am gyfnod hir, a bu newidiadau mawr ymhob agwedd ar fywyd yn ystod y cyfnod. Nid oedd addysg yn eithriad. Ar ddechrau'r teyrnasiad nid oedd gan nifer o blant fynediad i addysg. Roedd darpariaeth yr ysgolion yn anghyson, a chawsant eu rhedeg yn breifat neu gan enwadau crefyddol – ysgolion gwladol gan yr Eglwys yn Lloegr, neu Ysgolion Prydeinig gan yr Anghydffurfwyr. Ym 1870, galluogodd Deddf Addysg i Ysgolion Bwrdd gael eu hadeiladu lle oedd eu hangen, wedi'u talu gan arian a gasglwyd gan gyfradd ysgol bwrdd lleol. Roedd gan y plant i gyd felly fynediad i ysgol, ond (i'r gwrthwyneb i'r hyn a ddywedir yn aml) ni wnaeth Deddf 1870 hi'n orfodol i blant fynd i'r ysgol, ac nid oedd am ddim chwaith – codwyd ffi fach am fod yn bresennol. Gwnaed presenoldeb yn orfodol gan ddeddfau lleol yn ystod yr 1870au, ac fe'i gwaned yn orfodol yn y pen draw ym mhob man erbyn 1880. Byddai rhieni tlawd yn cael cymorth i dalu'r ffioedd, a gafodd eu dileu o'r diwedd ym 1891.

Oed gadael ysgol oedd 10 ym 1880, 11 ym 1893, a 12 yn 1899. Fe'i codwyd i 14 ym 1900, ond cafwyd cymaint o esgusodion fel mai ychydig iawn o blant a oedd yn aros yn yr ysgol mor hir â hynny. Yr unig addysg oedd ar gael i'r rhan fwyaf o blant oedd addysg elfennol, lle fyddent yn aros nes eu bod yn cyrraedd oed gadael ysgol.

***Gwaith***
Roedd niferoedd bychain iawn o ferched yn gweithio yn y diwydiant glo ar ben y pwll. Ni chaniateir iddynt weithio o dan ddaear wedi 1842.

Roedd teuluoedd mewn ardaloedd glofaol yn aml yn fawr. Ynghyd â gwŷr/meibion/tadau yn gweithio dan ddaear, roedd nifer o deuluoedd yn cymryd lletywyr a oedd hefyd yn gweithio yn y pyllau. Mae'n bosibl y byddai gwahanol aelodau'r teulu yn gweithio gwahanol sifftiau, ac yn dychwelyd adref ar wahanol adegau i gael bath a bwyd.

***Merched dosbarth canol ac uwch***
Yn aml byddai merched dosbarth canol a chyfoethog yn cadw'u hunain yn brysur drwy wneud 'gwaith da', yn casglu arian dros elusen neu'n gwasanaethu ar bwyllgorau. Er enghraifft, sefydlodd yr Arglwyddes Charlotte Guest ysgolion ar gyfer plant y gweithwyr yng Ngweithfeydd Haearn Dowlais ei gŵr a threfnu dosbarthiadau nos ar gyfer y gweithwyr yn ogystal â magu deg o blant a chyfieithu'r Mabinogi. Roedd eraill yn canolbwyntio'u hymdrechion ar wella mynediad merched dosbarth canol i addysg - Elizabeth Phillips Hughes, un o'r 100 o arwyr, sefydlodd goleg hyfforddi i ferched yng Nghaergrawnt ym 1885.

**Dechrau'r Ugeinfed Ganrif**

***Gwaith***
Roedd technoleg swyddfa newydd yn rhannol gyfrifol am greu cyfleoedd ehangach i ferched. Fe'u cyflogwyd fel teipyddion a theleffonyddion, er enghraifft.

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd nifer o ferched yn gwneud 'gwaith merched', - roedd galw am wisgoedd milwrol yn ogystal ag arfau rhyfel, ac am nyrsys yn ogystal â gyrwyr ambiwlans. Ond ar gyfer nifer o ferched roedd yn gyfle i ddianc rhag bywyd yn gwasanaethu, ac ar gyfer merched dosbarth canol yn gyfle i weithio y tu allan i'r cartref.

***Ysgolion***
Roedd ysgolion gramadeg yn cynnig cyfle i rai plant yn yr 1920au a'r 1930au i ddianc rhag y disgwyliad o fynd i swyddi a oedd yn talu'n wael neu ddiweithdra. Serch hynny, roeddynt yn codi tâl ac er bod rhai ysgoloriaethau a chymorth gyda'r ffioedd ar gael, roedd yn rhaid i deuluoedd ddod o hyd i arian ar gyfer gwisgoedd ysgol, costau teithio a llyfrau, yn ogystal ag arwyddo addewid y byddai eu plentyn yn aros yn yr ysgol hyd nes eu bod yn 16. Felly nid oedd rhai plant yn medru cymryd eu lle yn yr ysgol ramadeg o ganlyniad i ddiffyg arian. Roedd hyn yn broblem oedd yn effeithio'n fwy ar ferched na bechgyn, gan fod rhai rhieni yn credu bod addysg yn bwysicach i fechgyn na merched.

***Pleidlais i Ferched***
Rhoddwyd yr hawl i ferched dros 30 i bleidleisio ym 1918. Ym 1928, rhoddwyd yr hawl i ferched bleidleisio yn 21, yr un oedran â'r dynion.

Roedd Margaret Haig Thomas, sydd wedi'i henwebu fel un o'r 100 o Arwyr, yn gysylltiedig â mudiad y swffragetiaid, ac roedd yn weithgar yn wleidyddol yn yr 1920au a'r 1930au.

**1950au a'r 1960au**

***Ysgolion***
Deddf Addysg 1944 a gyflwynodd y system ysgol ramadeg/ysgol dechnegol/ysgol fodern uwchradd. Ar y pryd, gwelwyd hyn fel cam mawr ymlaen – hyd at hynny, roedd plant hynny nad oeddynt yn gallu mynd i'r ysgol ramadeg (canran uchel iawn o blant) yn aml yn gorfod aros yn yr ysgol elfennol, gan nad oedd darpariaeth ysgol uwchradd benodol. Roedd y ffaith bod addysg uwchradd a phrifysgol yn awr am ddim yn bwysig iawn, gan wneud addysg yn agored i nifer nad oeddynt wedi cael y cyfle cyn hynny.

***Gwaith***
Cyflwynwyd baddonau ben pwll mewn nifer fechan o lofeydd yn yr 1930au, ond nid hyd at wedi'r Ail Ryfel Byd yr oeddent i'w gweld ym mhob glofa. Roedd Elizabeth Andrews, sydd wedi'i henwebu yn un o'r 100 o Arwyr, yn un o'r rheini a frwydrodd ar gyfer cyflwyno baddonau ben pwll yn yr 1920au a'r 1930au.

**Am luniau a fydd o gymorth i esbonio'r testun hwn, ymwelwch â http://www.tlysau.org.uk. Mae lluniau arbennig o ddefnyddiol i'w cael o dan *Addysg, Diwydiant,* a *Rhyfel a Gwrthryfel (Rhyfel Byd Cyntaf)***